Eitem 2 ar yr Agenda **24 Medi 2010** **PCC 28.10**

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR MEDI 2010

YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

Cynaeafu a Marchnata - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

1. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod yn cadw at ein targedau a gymeradwywyd yn y cynllun busnes o ran meintiau a lefelau incwm. Cyfanswm y maint ar ddiwedd mis Awst oedd 332 km3 o gymharu â 790 km3 a nodwyd yn y cynllun busnes.

2. Cynhaliwyd y trydydd o'n chwe gwerthiant marchnad agored ac mae'r galw a'r prisiau am ein coed yn parhau'n gryf. Er gwaethaf y cynnydd o goed yn dod ar y farchnad o'r sector preifat, llwyddasom i werthu'r rhan fwyaf o'r parseli yng ngwerthiant mis Gorffennaf. Cynhelir ein gwerthiant nesaf ym mis Medi 2010.

3. Bydd achosion Phytophthora ramorum yn her fawr i'r timau gweithredol. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i dorri coed yr effeithiwyd arnynt i lawr, gan gynnwys ystod o opsiynau marchnata i gydymffurfio â'r gorchymyn cwympo coed, tra'n lleihau'r aflonyddwch i'r fasnach goed a rhagolygon incwm CCC. Yn ddiweddar, cyfarfu aelodau staff o'r tîm Cynaeafu a Marchnata â chydweithwyr o Fenter Coedwig Lloegr, a byddant yn mynychu cyfarfod masnach draws wlad ym mis Medi i esbonio'r cynllun gweithredu hwn ac i wahodd syniadau amdano, a datblygu ymagwedd grŵp-marchnad at y deunydd heintiedig.

4. Mae cynaeafu'r coed heintiedig i gychwyn yng nghanol mis Hydref a'i orffen erbyn 31 Mawrth 2011. Bydd y strategaeth farchnata yn rhoi'r coed ar y farchnad yn raddol yn hytrach na'u rhoi i gyd ar y farchnad yr un pryd. Bwriedir cadw at raglen gynaeafu gyfredol CCC, sef 790 km3. Mae clirio'r deunydd heintiedig sy'n iau na deng mlwydd oed yn parhau a thelir am hyn o gymorth grant £600k rhaglen Defra i reoli Phytophthora. Mae 40 hectar eisoes wedi'u clirio o'r 130 hectar sydd i gael eu gwneud erbyn 31 Rhagfyr 2010. Gall hyn ostwng os gallwn adfer deunydd gwerthadwy mewn cnydau grymus rhwng wyth a deng mlwydd oed. Mae'r prif felinau llifio yng Nghymru a ger Cymru wedi'u trwyddedu i dderbyn coed heintiedig. Cyfeirir melinau llai at y Gwasanaethau Iechyd Planhigion er mwyn iddynt gael eu trwyddedu.

Coetiroedd Gwell i Gymru - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

5. Ar 19 Gorffennaf 2010, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig y byddai cynllun grant presennol Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) yn cau gan gymeradwyo'r holl Gynlluniau Sylfaenol erbyn 31 Rhagfyr 2011, a chymeradwyo'r holl gontractau erbyn 31 Rhagfyr 2012. O 1 Ionawr 2013, Glastir fydd yn gyfrifol am grantiau i brynu buddiannau cyhoeddus coetiroedd ac ymdrinnir â'r sector coetiroedd fel rhanddeiliaid Glastir. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ceisiadau i CGG a chyflwynwyd dros gant o geisiadau am fapio yn ystod yr haf, sydd fel arfer yn gyfnod tawel. Mae hyn wedi

effeithio ar adnoddau staff ac rydym yn rhoi sawl mesur ar waith i reoli hyn, gan gynnwys ail-flaenoriaethu beichiau gwaith a chydweithio â chynllunwyr er mwyn gwella safon y ceisiadau. Mae cyfanswm y ceisiadau i CGG bellach yn 57,695 hectar a chymeradwywyd 31,679 hectar o'r rhain eisoes gan CCC. Y cyfanswm o blannu coed llydanddail yw 283 hectar sy'n cynnwys 281 hectar o goed brodorol.

6. Rydym bellach wedi lansio cynllun cefnogi yn debyg i'r un sydd yn Lloegr i gynorthwyo perchnogion sydd wedi derbyn rhybudd iechyd planhigion. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol ar gyfer cyngor proffesiynol a chymorth tuag at y gost o dorri coed heintiedig i lawr.

Prosiect Creu Coetiroedd Glastir - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

7. Bydd grantiau Creu Coetiroedd Glastir yn elfen unigol o'r cynllun. Cychwynnodd gwaith ar y prosiect hwn ym mis Ebrill 2010 ac mae i orffen ym mis Hydref 2010. Bydd y cynllun newydd yn system fwy syml na'i rhagflaenydd, fodd bynnag, bydd yn parhau i ddarparu cefnogaeth arbenigol i ymgeiswyr yn ogystal â chyfraddau grant gwell. Cafodd y cyfraddau groeso da gan y sectorau coedwigaeth ac amaethyddol yn Sioe Frenhinol Cymru.

Diogelwch Cronfeydd Dŵr – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

8. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed gwaith i wella diogelwch dwy gronfa ddŵr yng Ngogledd Cymru, sef Hendre Ddu yn ardal Dyfi a Llyn Goddionduon ym Mharc Coedwig Gwydyr. Mae hyn wedi cynnwys gwella maint gorlifan y ddwy gronfa er mwyn ymdopi â llifogydd unwaith mewn mil o flynyddoedd. Gwnaed y gwaith cynllunio a goruchwylio'r gwaith adeiladu gan aelodau staff Peirianneg Sifil Coedwigaeth a leolir yng Nghymru. Bydd y ddau waith hyn yn cynorthwyo CCC i gydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Llifogydd newydd a fydd yn disodli'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr. Mae gwaith i wella diogelwch a lleihau maint cronfa ddŵr fechan yng Nghyffty yng Ngwydyr wedi'i gynllunio i gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae materion yn ymwneud â chynnal cyflenwad dŵr ac ardal Cadwraeth Arbennig gyfagos yn achosi oedi i'r broses. Bydd y gwaith hwn yn golygu bod y gronfa ddŵr y tu allan i'r rheoliadau newydd.

Gwaith Sefydlogi Tirlithriad Tyndyrn – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

9. Mae'r holl waith i sefydlogi'r tirlithriad yn Nhyndyrn wedi'i orffen. Mae'r ardal lle roedd y perygl, uwchben yr A46, wedi'i diogelu, sy'n dileu atebolrwydd sylweddol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r gwaith hefyd wedi datrys materion yn ymwneud â gormodedd o ddŵr yn llifo ar dir cyfagos.

Phytophthora ramorum - *Rhaglen 2: Diogelu coed a gofalu am eu hiechyd*

10. Sefydlwyd Tîm Rheoli Achosion ar draws y Comisiwn Coedwigaeth i ddarparu cyfeiriad strategol clir a chyson er mwyn rheoli Phytophthora ramorum. Bydd cynrychiolwyr sector yn ymdrin â datblygu a chyflwyno strategaeth reoli.

11. Mae mwy o gellïoedd llarwydd Siapaneaidd heintiedig wedi'u canfod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cynulliad Cymru ger yr ardal lle cafwyd achosion eisoes, sef rhannau isaf Dyffryn Afan a Dyffryn Garw yn ne Cymru. Mae cyfanswm maint y cellïoedd yr effeithiwyd arnynt bellach dros 800 hectar o larwydd, sy'n golygu bod dros 180 km3 o goed heintiedig. Yn ddiweddar cadarnhawyd achos yn agos at Ganolfan Ymwelwyr Bwlch Nant-yr-Arian. Bydd torri tua 60 o goed i lawr yn cychwyn yng nghanol mis Medi i atal yr haint rhag lledaenu i'r gelli o amgylch y llyn. Gellir gwneud hyn mewn modd sensitif heb orfod cau unrhyw un o'r cyfleusterau. Mae nifer o gellïoedd eraill yn dangos symptomau a chânt eu harchwilio gan Ymchwil Goedwig cyn cwymp nodwyddau. Caiff yr arolwg ei gostwng pan fydd y nodwyddau wedi cwympo a phryd hynny bydd y strategaeth rheoli yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw'r llarwydd yr effeithiwyd arnynt yn cael eu marchnata fel coed heb yr haint. Rydym yn archwilio sut y gellir gwneud hyn drwy reoli trwyddedau cwympo coed.

12. Ym mis Awst, yn dilyn ei weld o'r awyr i gychwyn, nodwyd bod yr haint ar dir preifat yng ngorllewin Sir Ddinbych, i'r gogledd o gronfeydd dŵr Alwen. Torrodd y tirfeddiannwr y coed i lawr ar unwaith i'w defnyddio ar y safle fel tanwydd pren. Ni wyddys sut y cafodd y coed hyn yr haint. Er na chadarnhawyd unrhyw achosion eraill yn y sector preifat, rydym yn archwilio safle preifat ger achos blaenorol ar Ystad Goetir Llywodraeth y Cynulliad yn ne Cymru.

Rhaglen Ynni Gwynt - *Rhaglen 3: Ynni Adnewyddadwy*

13. Mae cynnydd yn parhau i oresgyn materion sydd wedi achosi i Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrthwynebu cynllun Prosiect Pen-y-Cymoedd. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal â Swyddogion cynllunio lleol i ddechrau ystyried Amodau Cynllunio A. 106 i ganiatáu Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i ddileu ei wrthwynebiad. Mae Deiliad yr Opsiwn yn gobeithio cyflwyno eu Cais Cynllunio i'r awdurdodau lleol erbyn diwedd Rhagfyr 2010.

14. Mae CCC yn parhau i gydweithio gyda CCGC i ddatrys materion amgylcheddol ac ar 2 Medi, cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus i ddod â Rheolwyr Rhanbarthau Coedwigo, aelodau staff Rhaglen Ynni Gwynt a gweithwyr allweddol CCGC at ei gilydd er mwyn darparu llwyfan i ddatblygu ein perthynas.

15. Mae gwerthu Deiliad Opsiwn Pen-y-Cymoedd yn mynd yn ei flaen ac mae CCC yn ymrwymo i Gytundeb Cyfrinachedd i gydweithio gyda'r cwmni daliannol sy'n gwerthu a sicrhau y bydd unrhyw ddarpar brynwr yn gorffen y datblygiad yn llwyddiannus.

16. Mae cynnydd yn y gweithgaredd ar draws y Rhaglen wrth i Ddeiliaid Opsiynau geisio cyflwyno eu Ceisiadau Cynllunio gerbron y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Mae Deiliad Opsiwn Ardal Chwilio Strategol-D (Airtricity/SSE) yn Nant-y-Moch wedi gofyn am fynediad ychwanegol ger Canolfan Ymwelwyr Nant-yr-Arian sy'n denu sylw wrth iddynt lobïo Gweinidogion, swyddogion anweithredol CCC ac uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae CCC wedi sefydlu sail prisiant sydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Deiliad Opsiwn.

Cynllun Busnes Ynni Pren (WEBS) - *Rhaglen 3: Ynni Adnewyddadwy*

17. Bellach mae 29 o geisiadau grant wedi'u cymeradwyo, cyfanswm gwerth £632,000. Mae'r busnesau sy'n debygol o wneud cais am grant yn debyg i'r rhai a wnaeth gais o dan WEBS 1 gyda'r mwyafrif naill ai'n ddarparwyr llety, unedau swyddfeydd gwledig neu fusnesau gwaith pren. Mae tîm WEBS yn canolbwyntio ar recriwtio ceisiadau mwy o faint a bydd yn gwerthuso cais cam 2 gan Clifford Jones Timber am brosiect cyfalaf sylweddol. Maent hwy hefyd mewn trafodaethau ar dri safle i ddatblygu gwres a phŵer cyfunol a byddai pob un ohonynt yn fuddsoddiad sylweddol.

COETIROEDD I BOBL

Cynllun Coetir Rhanbarthol Blaenau'r Cymoedd – *Rhaglen 4: Cyfranogiad a menter Gyhoeddus*

18. Yn 2010, cydweithiodd Swyddog Prosiect Blaenau'r Cymoedd â Phartneriaeth Ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, Grŵp Ymgynghori Cynllun Coetir ac ymgynghorwyr ar ddatblygu cynllun coetiroedd rhanbarthol ar gyfer yr ardal hon. Mae'r Cynllun wedi cael ei fabwysiadu fel dogfen strategol gan Grŵp Llywio Partneriaeth Blaenau'r Cymoedd a Phwyllgor Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. (Bydd cyflwyniadau i'r pedwar Awdurdod Unedol arall yn fuan iawn.) Mae arfarniad o'r modelau cyflawni posibl yn cael ei gynnal fel sail trafodaethau pellach â'r holl bartneriaid. Caiff y Cynllun ei ystyried gan Fwrdd Blaenau'r Cymoedd yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Os caiff ei gymeradwyo gan yr aelodau, yn ôl y disgwyl, yna caiff y cynllun ei fabwysiadu'n llawn fel dogfen strategol Blaenau'r Cymoedd. Yna gellir gwneud cynigion cyllido i'r bartneriaeth gyfrannu at gyflawni'r Cynllun a bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n cyflwyno cynigion sy'n berthnasol i goetiroedd ddangos sut y mae'r cynigion hynny yn cynorthwyo cyflawni'r Cynllun.

Canolfan Ymwelwyr Garwnant, Merthyr Tudful - *Rhaglen 5: Hamdden a mynediad*

19. Mae'r ailwampio olaf i'r ganolfan wedi'i orffen ac agorwyd y ganolfan yn swyddogol yng Ngorffennaf gan ein Gweinidog, Elin Jones AM. Mae'r ganolfan yn cynnig ystod o gyfleusterau hamdden a chynadledda, gan alluogi i ddarparwyr allanol ddefnyddio'r safle ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae aelodau staff y Rhanbarth Goedwigo yn cydweithio gydag arlwywyr yng Ngharwnant a thîm "Gwir Flas ar Gymru" i hyrwyddo defnyddio bwydydd lleol o'r ganolfan hon. Yn ystod ein tri mis cyntaf o fasnachu, rydym wedi derbyn 80 o archebion ar gyfer ein hystafelloedd cynadledda sydd wedi rhoi cefnogaeth bellach i'n darparwr arlwyo newydd. Mae nifer yr ymwelwyr dyddiol yn parhau i gynyddu drwy gydol yr haf ac rydym wedi hyrwyddo'r ganolfan drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau dros benwythnosau. Rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ein marchnata â chwmnïau teithio lleol.

Canolfan Ragoriaeth Eryri - *Rhaglen 5: Hamdden a mynediad*

20. Dyfarnwyd cyllid i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i gefnogi datblygu canolfan ragoriaeth ranbarthol yn ne Eryri, a arweiniwyd gan Gyngor Sir Gwynedd. Dyrannwyd £1.4 miliwn i Barc Coedwig Coed y Brenin i adeiladu ar y busnes presennol drwy ehangu sail y cwsmeriaid seiclo presennol a gwella mynediad i seiclwyr o bob gallu gan 11 cilometr o lwybrau newydd ac adeilad newydd. Bydd y cyllido yn golygu iechyd a diogelwch gwell drwy ddarparu mwy o gyfleusterau lefel mynediad; ansawdd gwell o brofiad ar y safle gan gynnwys mynediad gwell at wybodaeth, cynnydd mewn lle adwerthu a chyfleusterau llogi beiciau; a chynnydd yn yr incwm o'r safle.

Cod Ymddygiad Ceunant Sychryd - *Rhaglen 5: Hamdden a mynediad*

21. Lluniwyd cod ymddygiad ar gyfer ceunant Sychryd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng CCC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn rhoi cyngor i grwpiau gweithgareddau awyr agored lle gallant gerdded ac i roi cyfarwyddyd clir ynghylch arfer gorau amgylcheddol. Y nod yw gwarchod cynefin anghyffredin y ceunant sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig a diogelu defnydd tymor hir y ceunant gan ddarparwyr gweithgareddau awyr agored. Mae'r darparwyr gweithgareddau wedi sefydlu grŵp o'r enw Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru i weinyddu'r cytundeb a darparu llais i'r diwydiant a chymorth hyfforddi a marchnata.

Lleoliadau Profiad Gwaith - *Rhaglen 6: Dysgu yn seiliedig ar goetiroedd a sgiliau sector*

22. Rydym yn datblygu fframwaith ar gyfer lleoliadau profiad gwaith yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cydnabod bod gyrfaoedd sy'n ymwneud â choetiroedd a choed yn ddewis ymarferol iddynt. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynnig profiad gwaith cyson, mynediad ato i bawb ac yn cadw at ganllawiau arfer gorau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Trwy achredu ein lleoliadau profiad gwaith drwy Rwydwaith y Coleg Agored, bydd yn galluogi myfyrwyr i ennill credydau trosglwyddadwy yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

DATBLYGU SECTOR COEDWIG CYSTADLEUOL AC INTEGREDIG

Gweithlu'r Contractwyr Coedwigaeth – *Rhaglen 6: Dysgu yn seiliedig ar goetiroedd a sgiliau sector ynghyd â Rhaglen 8: Hyrwyddo coed a datblygu'r sector coedwig*

23. Mae'r Strategaeth Adnoddau Cynaeafu yn rhagweld prinder o 130 o gontractwyr yn y dyfodol i ymgymryd â gwaith rhaff wifrau ar yr ystad goetir. Mae hyn oherwydd newidiadau yng ngofynion y rhaglen a strwythur cyfredol oed gweithlu contractwyr (rhwng 45 a 48 oed ar gyfartaledd). O ystyried rheoli coetiroedd eraill yng Nghymru, mae'r posibilrwydd y gellir creu rhwng 250 a 500 o swyddi yng Nghymru wledig.

24. Mae'r tîm Cyllid a Phartneriaeth wedi bod yn archwilio ffyrdd i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn cydweithrediad â JobMatch, cynllun cyflogi a gyllidir gan y Llywodraeth, drwy gwrs cychwynnol i bedwar hyfforddai sy'n gweithio â chontractwyr yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Mae JobMatch yn cyflogi'r recriwtiaid ar isafswm cyflog

yn ystod y cyfnod dysgu ac ar ôl hynny fe'u cyflogir gan y contractwr. Os bydd hyn yn llwyddo, ceisir rhagor o gontractwyr ar gyfer y cynllun.

Enchwythiad Rheoledig Teiars - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

25. Yn ddiweddar, mae Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru wedi ariannu uned Enchwythiad Rheoledig Teiars ar gyfer cludydd yng Nghymru, i gynnal profion yn ystod y chwe mis nesaf a rhoi adborth ar y perfformiad o ran effeithlonrwydd gweithredol cludo. Bydd y cyfnod prawf yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau dangosol lle gwahoddir cludwyr eraill i weld y system yn gweithio yn y goedwig. Ar sail adborth gan gydweithwyr yn yr Alban, mae manteision buddiol i'r cynllun i'r diwydiant. Mae tîm Cynaeafu a Marchnata Cymru yn ystyried rhannau o goedwigoedd lle, oherwydd ffyrdd gwael a rhaglenni mwy, y gall y dechnoleg hon gael ei defnyddio'n fwyfwy yn y dyfodol.

MESURAU BUSNES

Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl – *Cam Busnes 1: Boddhad staff*

26. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bodloni gofynion Buddsoddwyr mewn Pobl yn llwyddiannus. Gwnaed argraff dda ar Arolygwyr Buddsoddwyr mewn Pobl o ran y gwelliannau a wnaed ers yr asesiad blaenorol 18 mis yn ôl. Yng Nghymru tynnwyd sylw at gyfathrebu dwyieithog llawn drwy ddulliau gwahanol fel arfer da a hefyd rhaglen ymsefydlu CCC sy'n cael ei datblygu i'w defnyddio'n genedlaethol.

Hyfforddiant Iaith Gymraeg – *Cam Busnes 3: Hyfforddiant staff*

27. Mae CCC wedi ystyried cyfleoedd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio eu hyfforddiant a'u cyrsiau iaith Gymraeg a ddarperir gan Eliesha. Gall LlCC gynnig lleoedd i aelodau staff CCC pan na fydd y cyrsiau yn llawn ond y bydd y cwrs yn cael ei gynnal serch hynny. Darperir hyn i CCC am ddim cost ychwanegol. Mae aelodau staff y Swyddfa Genedlaethol yn mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg yn adeilad Aberystwyth ochr yn ochr ag aelodau staff LlCC.

Cynllun Ymadawiad Cynnar Gwirfoddol

28. Ystyriodd Bwrdd Rheoli CCC p'un ai cymryd rhan yn y cynllun Ymadawiad Cynnar Gwirfoddol/ Ymddeol Cynnar Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ai peidio. Cynigir y rhain i aelodau staff Gwasanaethau Peirianneg Fecanyddol yng Nghymru yn unig gan fod y maes hwn yn un arbenigol iawn â sgiliau trosglwyddadwy cyfyng ac mae angen gostyngiad mewn adnoddau fel rhan o adolygiad yr uned fusnes. Llywiwyd y penderfyniad i beidio â chynnig y ddau gynllun i aelodau staff ledled Cymru gan y cynnydd mewn adnoddau y bydd eu hangen yn y rhaglen ynni gwynt (uchafswm o 39 aelod staff rhwng 2010 a 2014, a gyllidir gan ffioedd opsiynau gan ddatblygwyr). Rhagwelir y bydd angen yr holl aelodau staff i sicrhau cyflawni'r Rhaglen Ynni Gwynt ac amcanion strategol eraill CCC. Mae ymddeoliad cynnar a gymeradwywyd wedi'u

hyrwyddo ymhlith aelodau staff ac fe'i cymeradwyir mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ar sail bod yr unigolyn mewn maes gwaith sy'n dirywio lle nad oes angen rhywrai yn eu lle a bod hyn yn fforddiadwy.

Y Fenter Gweithrediadau ar y Cyd

29. Cychwynnodd gwaith ar y fenter hon ym mis Ebrill (cyn cyhoeddiad y gweinidog ym mis Gorffennaf), ond mae'r fenter wedi'i hatal ar hyn o bryd, nes ceir canfyddiadau cychwynnol Prosiect Dewisiadau yr Amgylchedd. Nod y fenter yw adolygu cyflawni gwaith gweithredol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, gan chwilio am gyfleoedd i'r tri sefydliad gydweithio'n agosach gyda'i gilydd. Mae tri cham i'r fenter: dod o hyd i wybodaeth, datblygu opsiynau a'u rhoi ar waith.

30. Mae Cam 1 wedi nodi'r meysydd canlynol y gellid eu datblygu rhwng naill ai dau o'r sefydliadau neu'r tri ohonynt: 1. Cyngor strategol a datblygu polisi newydd; 2. Rheoleiddio; 3. Cyflawni a chefnogi rheoli ymarferol ar gyfer bywyd gwyllt, tirwedd a phobl; 4. Rheoli Tystiolaeth a Data; 5. Cefnogaeth strategol ar gyfer prosiectau gweithredol. Gall CCC gyfrannu'n benodol i feysydd 1, 4 a 5. Dengys Cam 1 fod llawer o gydweithio eisoes yn digwydd a gellir adeiladu fwyfwy ar hyn.

Trefor Owen
Cyfarwyddwr CCC
Medi 2010